



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.

Gwyliau hanner tymor – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Gwener, Hydref 23ain ac yn ail agor ar **DDYDD MAWRTH**, Tachwedd 3ydd.

Sut mae eich plentyn yn setlo nôl yr ysgol? – mi fydd yr athrawon yn cysylltu gyda chi dros y ffôn cyn hanner tymor. Prif bwrpas yr alwad fydd i'ch diweddarau am sut mae eich plentyn /plant wedi setlo nôl yn yr ysgol. Cewch hefyd grynodedb o beth mae eich plentyn yn ei wneud yn dda a beth sydd angen sylw / y ffordd ymlaen. Sgwrs fer o ryw 5 - 10 munud fydd hon. Mi fydd yr alwad yn ymddangos fel no caller id. Os fydd angen sgwrs bellach am unrhyw agweddau penodol yna mi fydd modd trefnu galwad arall.

Anghenion Dysgu Ychwanegol – mi fydd Cathryn James o'r Adran ADY yn cysylltu gyda rhai rhieni / gwarcheidwaid er mwyn rhoi diweddariad o ddatblygiad plant penodol. Mae Mrs James ar gael am sgwrs am unrhyw agwedd o ADY drwy ffonio'r ysgol 01970 617613 neu drwy e bost c.james8@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Manylion gan Lywodraeth Cymru am gasgliad data (ER GWYBODAETH YN UNIG) Mae angen data ar Lywodraeth Cymru'n rheolaidd er mwyn deall y patrymau presenoldeb cyffredinol a nodi nodweddion disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol. Mae'n hanfodol bod data amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel digon sylfaenol. Caiff y data hwn ei gasglu ar lefel awdurdod lleol yn ddyddiol ar hyn o bryd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno casgliad data newydd ar bresenoldeb o ddydd Llun 28 Medi ymlaen. Bydd y data hwn yn cael ei gasglu drwy Wasanaeth Darparu Data Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio gan Hwb ar hyn o bryd. Bydd y data canlynol bellach yn cael ei gasglu at ddiben y prosiect hwn:

- UPN
- Enw blaen
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhyw
- Dyddiad geni
- Cod post y cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod

Hyd yma, mae lawer o ysgolion wedi cynorthwyo awdurdodau lleol i gasglu'r data dyddiol. Gwn fod hyn wedi ychwanegu at eich prosesau gweinyddol, a diolchaf i chi am roi o'ch amser i ddarparu'r wybodaeth hon. Gofynnaf i chi barhau i ddarparu'r wybodaeth hon am gyfnod byr wrth inni gyflwyno'r system newydd. Unwaith y bydd y system newydd wedi'i gwreiddio'n llawn, ni fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu data dyddiol i awdurdodau lleol.

Bydd y casgliad data yn dechrau ddydd Llun 28 Medi. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd a atodir yn darparu rhagor o wybodaeth am sut bydd y data'n cael ei ddefnyddio yn y broses newydd.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams, Pennaeth, 02/10/2020 prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Thank you for all your co-operation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.

Half term holidays - the school will close for half term holidays on Friday, October 23rd and re-open on TUESDAY, November 3rd.

How your child is settling back at school - teachers will contact you by phone before half term. The main purpose of the call will be to update you on how your child (ren) have settled back in school. You will also have a summary of what your child is doing well and what needs attention / the way forward. This will be a short talk of approximately 5 - 10 minutes. The call will appear as no caller id. If you need to talk further about any specific aspects then another call can be arranged.

Additional Learning Needs - Cathryn James of the ALN Department will contact some parents / guardians to provide an update on the development of specific children. Mrs James is available for a chat about any aspect of ALN by calling the school on 01970 617613 or by email c.james8@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Information by Welsh Government regarding data collection (FOR INFORMATION ONLY) The Welsh Government needs data on a regular basis to understand overall attendance patterns and to identify the characteristics of pupils who are not attending. It is essential that timely data are regularly available at a sufficiently granular level. This is currently collected at local authority level on a daily basis.

The Welsh Government will implement a new process for data collection on attendance from Monday 28 September. The data will be collected through the Welsh Government's School Data Provisioning Service, which is currently used by Hwb.

The following data will now be collected for the purpose of this project:

- UPN
- Forename
- Middle name(s)
- Surname
- Gender
- DOB
- Home postcode
- Ethnic background
- Eligibility for free school meals
- Additional learning needs
- English as an additional language
- Attendance code for each half day session

The new weekly data collection will begin on Monday 28 September. The information will be collected automatically through the Schools' Management Information Systems (MIS). The privacy notice attached will provide further information on how the data will be used in the new process.

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately

R C Williams, Headteacher, 02/10/2020 prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk